**TUDALEN 65**

Cofnodion Cyfarfod o **Gyngor y Ddinas** a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda Zoom **nos Lun, 7 Mawrth 2022** am 6.30pm.

**YN BRESENNOL: -** Eu Teilyngdod y Maer, Owen Hurcum, (Cadeirydd), y Dirprwy Faer Cynghorydd Gwynant Roberts, Cynghorwyr Les Day, Medwyn Hughes, Huw Wyn Jones, John Wynn Jones, John Martin, Enid Parry, John Wyn Williams.

Swyddogion:- Martin Hanks (Clerc y Dref dros dro), Paul Rowlinson (Cyfieithydd), Sioned Jones (Cofnodion).

**249/22 YMDDIHEURIADAU**

Cynghorwyr Elin Walker Jones, Kieran Jones, Nigel Pickavance, Mair Rowlands, Luke Tugwell, George Turner.

**250/22 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU DDIDDORDEB PERSONOL**

Dim.

**251/22 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

Dim.

**252/22 COFNODION**

i) Pwyllgor Cynllunio – 13 Rhagfyr 2021
Cymeradwywyd fel cofnod cywir.
ii) Cyngor Llawn – 13 Rhagfyr 2021
Cymeradwywyd fel cofnod cywir.
iii) Cyfarfod Cyfunol Pwyllgorau – 31 Ionawr 2022
Cymeradwywyd fel cofnod cywir.
iv) Cyngor Llawn – 31 Ionawr 2022
Cymeradwywyd fel cofnod cywir.
v) Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau – 7 Chwefror 2022
Cymeradwywyd fel cofnod cywir.
vi) Pwyllgor Asedau, Adnoddau a Phrosiectau – 14 Rhagfyr 2022
Cymeradwywyd fel cofnod cywir.

**253/22 DERBYN ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR LLYWODRAETHIANT, STAFFIO A CHYLLID**

Gan nad oedd y Cadeirydd yn y cyfarfod, ni chyflwynwyd adroddiad i'w gymeradwyo.

**254/22 DERBYN ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR ASEDAU, ADNODDAU A PHROSIECTAU**

Gan nad oedd y Cadeirydd yn y cyfarfod, ni chyflwynwyd adroddiad i'w gymeradwyo.

**TUDALEN 66**
Eglurodd Clerc y Dref mai ychydig o rybudd yr oedd Cadeiryddion y ddau Bwyllgor wedi'i gael i baratoi'r adroddiadau. Fodd bynnag, cytunwyd y byddai'r fformat hwn yn cynyddu cyfathrebu rhwng y Pwyllgorau a'r Cyngor a'r Cynghorwyr.
**PENDERFYNWYD**
y byddai adroddiadau o'r 2 Bwyllgor yn cael eu cynnwys fel eitem safonol ar yr agenda.
**PENDERFYNWYD**
Cynnal gweithdy i drafod y strwythur pwyllgorau gan iddo fod yn ei le ers blwyddyn bellach.

**255/22 DERBYN ADRODDIAD GAN GLERC Y DREF DROS DRO**
Eglurodd Clerc y Dref dros dro ei fod wedi blaenoriaethau'r materion a oedd angen sylw pan ddechreuodd yn y swydd, yn cynnwys: cyllideb 2022 - 2023 a phraesept 2003, yswiriant y Pier, cytundeb y goleuadau Nadolig, lle chwarae'r Pier, dogfen ddrafft ynghylch ceisiadau am roddion ariannol, gwaith papur i'r banc. Gyda'r materion hyn bellach ar y gweill, roedd wedi gallu mynychu cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid eraill:

a) Dinas o Wirfoddolwyr. Grŵp oedd hwn yn tarddu o'r cais Dinas Diwylliant. Cynigir hyd at £250k ar gyfer prosiectau amrywiol ac mae Bangor yn bwriadu cyflwyno cais.
b) Roedd wedi cael cyfarfod gan gynrychiolydd Un Llais Cymru am *Lleoedd Lleol ar gyfer Natur*. Grant yw hwn i gynyddu bioamrywiaeth. Roedd gan yr aelodau ddiddordeb mawr yn y cynllun hwn a mynegwyd rhai syniadau cychwynnol.
c) Adroddodd y Clerc fod cyfarfod diweddaraf Bangor yn Gyntaf wedi bod yn arbennig o gadarnhaol a chyn bo hir dylai'r Ddinas weld biniau sbwriel newydd, dodrefn stryd a pheiriant glanhau strydoedd a brynwyd gan Gyngor Gwynedd a adnabyddir fel y 'Gladiator'.

Nid oedd y Clerc wedi gallu mynychu cyfarfod o Bartneriaeth Strategol Bangor ond roedd y Cyng John Wyn Jones wedi bod yn bresennol. Roedd sleidiau cyflwyniad o'r cyfarfod wedi cael eu hanfon at aelodau'r Cyngor.
**PENDERFYNWYD** derbyn adroddiad Clerc y Dref.

**256/22 CYMERADWYO ANFONEBAU I'W TALU**
Cymeradwywyd talu'r anfonebau.

**257/22 ARWYDDO DOGFENNAU**
Cymeradwywyd.

**258/22 DERBYN DIWEDDARIAD AR SWYDDI STAFF**
Roedd hon yn eitem gyfrinachol.

**259/22 UNRHYW FATER ARALL**
**PENDERFYNWYD** ail-drefnu cyfarfod 18 Ebrill 2022 i 25 Ebrill 2022
**PENDERFYNWYD** gwneud hwn yn gyfarfod hybrid.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.20pm**

ACTING TOWN CLERK – Martin Hanks – CLERC Y DREF DROS DRO